

NARATIF

Testun sy'n ailadrodd digwyddiadau yn eu trefn gronolegol ran amlaf. Gall fod yn ffuglen neu gall gynnwys gwybodaeth.

MATH O FFURF – HUNANGOFIANT, COFIANT, STORI FER, DETHOLIAD O NOFEL, NOFEL GRAFFIG A LLYFR LLUN

Penderfynwch pwy sy'n adrodd y naratif. Pwy yw'r "llais" yn y darn? Person cyntaf neu'r trydydd person

Dewiswch eich cymeriadau'n ofalus

Byddwch yn adrodd digwyddiadau

Defnyddiwch sgwrs i ddod â'r digwyddiadau'n fyw

Gallwch gael naratif gweledol mewn llyfrau llun i blant bach



YSGOL BOTWNNOG



YSGOL DYFFRYN OGWEN



YSGOL TRYFAN



CANLLAW I DRAFOD MATH O DESTUN:

NARATIF

Trosolwg o nodweddion, iaith a strwythur



PA FATH O DESTUN YW HWN?

Testun sy'n ailadrodd digwyddiadau yn eu trefn gronolegol ran amlaf. Gall fod yn ffuglen neu gall gynnwys gwybodaeth.

STRWYTHUR Y TESTUN	GWYBODAETH AM IAITH	CANLLAWIAU YSGRIFENNU
Bydd testun o'r math hwn i'w weld yn aml yn y ffurfiau canlynol: - Hunangofiant - Cofiant - Stori Fer - Detholiad o nofel - Nofel graffig - Llyfrau llun i blant bach	Bydd testun o'r math hwn yn cynnwys: - Defnydd o'r amser presennol neu'r amser gorffennol e.e. <i>mae / roedd; gwêl / gwelodd</i> - Person cyntaf y ferf e.e. <i>cefaïs; teimlais; cerddais</i> - Trydydd person y ferf e.e. <i>cafodd; teimlodd; cerddodd</i> - Defnyddio cysyllteiriau e.e. <i>oherwydd, yna, felly, yn sydyn, yn y cyfamser</i>	Wrth ysgrifennu testun o'r math hwn: - Dylid penderfynu pwy sy'n adrodd y naratif a phwy yw'r "llais" yn y darn. - Gall y "llais" yn y darn fod yn adroddwr sy'n gymeriad neu'n "lais gwrthrychol" sy'n gwylio digwyddiadau'r naratif. - Dylid dewis cymeriadau'n ofalus. - Gellir defnyddio sgwrs i ddod â'r digwyddiadau'n fyw. - Gellir defnyddio naratif gweledol mewn nofelau graffig a llyfrau llun.

YSGRIFENNU NARATIF

Wrth ysgrifennu naratif byddwn ni'n defnyddio nifer o dechnegau ond y nod bob amser yw cyflwyno digwyddiadau a chymeriadau a fydd yn cynnal diddordeb y darlennydd gan gyrraedd uchafbwynt neu gasgliad. Mae darn o naratif llwyddiannus yn dal sylw'r darlennydd drwy agoriad effeithiol ac yna'n sefydlu lleoliad ac amser y darn. Bydd y darn yn cyflwyno cymeriadau a digwyddiadau ond bydd rhai yn **allweddol** oherwydd eu **harwyddocâd** arbennig neu oherwydd eu bod yn gyfrifol am danio cadwyn o ddigwyddiadau. Yn ogystal â hyn, mae darn o naratif llwyddiannus yn arwain y darlennydd yn **ofalus** gam wrth gam hyd nes y bydd y cyrraedd ei uchafbwynt. Bydd y darlennydd yn **deall** ac yn gwerthfawrogi'r uchafbwynt hwn oherwydd bydd wedi deall arwyddocâd a **chanlyniad** y digwyddiadau a arweiniodd at yr uchafbwynt. Dylid cofio bob amser pwy yw'r "llais" yn y darn a dewis hwnnw'n ofalus oherwydd bydd yn llywio'r naratif. Ai chi fydd y "llais" yn y darn? Fyddwch chi'n rhan o ddigwyddiadau'r naratif neu a fydd y "llais" yn gwylio'r digwyddiadau'n *wrthrychol*? Mae gennych chi hanes neu stori i'w hadrodd . . . ewch â'r darlennydd ar daith!

BYDDWCH YN DREFNUS – cofiwch fod y darlennydd angen arweiniad drwy'r digwyddiadau ac efallai y byddwch yn dymuno eu cyflwyno mewn trefn gronolegol

BYDDWCH YN GLIR – cofiwch fod rhaid i chi gyflwyno pob digwyddiad a chymeriad yn glir a chofiwch fod arwyddocâd arbennig i ambell ddigwyddiad a chymeriad ac angen sylw arbennig arnynt

BYDDWCH YN FENTRUS – dewis digwyddiad cyffrous a chymeriadau lliwgar wrth arwain y darlennydd at uchafbwynt eich darn gam wrth gam



NARATIF

MATH O FFURF – HUNANGOFIANT, COFIANT, STORI FER, DETHOLIAD O NOFEL, NOFEL GRAFFIG A LLYFR LLUN

CIP AR DESTUN

'Rhyddid'

Tom Lewis, Cyfres y Fflam

Y bachgen rownd bapur oedd Matthew, wedi bod yn gweithio i Mr Hughes ers rhyw chwe mis bellach. Roedd wedi dod i mewn i'r siop un bore Llun, a gofyn yn blwmp ac yn blaen i Mr Hughes a oedd ganddo swydd iddo. Fel yr oedd hi'n digwydd, roedd y bachgen rownd bapur a oedd yn gweithio iddo ar y pryd wedi bod yn hwyr bob bore ers wythnos a mwy, ac felly fe gafodd Matthew'r swydd yn y fan a'r lle. A'r cwbl a gafodd y llall oedd y sac!

"Bore da, Matthew," meddai Mr Hughes pan gerddodd drwy'r drws y bore hwnnw. Doedd Matthew ddim yn un a oedd yn defnyddio llawer o eiriau, felly fe roddodd wên yn lle. Gwenodd Mr Hughes hefyd, hanner y wên i ateb Matthew, a'r hanner arall yn chwerthiniaid bach iddo fo'i hun mai'r un drefn oedd hi bob bore bellach. Y 'bore da, Matthew' gan Mr Hughes yn cael ei ateb efo dim byd ond gwên gan Matthew. Byddai rhai pobl yn meddwl bod Matthew ychydig yn haerllug ddim yn ateb, ond roedd Mr Hughes wedi dod i'w nabod yn ddigon da i wybod mai un fel yna oedd Matthew, a dyna ni. Bachgen y geiriau prin.

Y bachgen rownd bapur oedd Matthew, wedi bod yn gweithio i Mr Hughes ers rhyw chwe mis bellach. Roedd wedi dod i mewn i'r siop un bore Llun, a gofyn yn blwmp ac yn blaen i Mr Hughes a oedd ganddo swydd iddo. Fel yr oedd hi'n digwydd, roedd y bachgen rownd bapur a oedd yn gweithio iddo ar y pryd wedi bod yn hwyr bob bore ers wythnos a mwy, ac felly fe gafodd Matthew'r swydd yn y fan a'r lle. A'r cwbl a gafodd y llall oedd y sac!

'Rhyddid'
Tom Lewis
Cyfres y Fflam

CAA

'Hanas Gwanas'

Hunangofiant Bethan Gwanas
Cyfres y Cewri 36, Gwasg Gwynedd

'Hogan Dad' o'n i, yn bendant, fel y rhan fwy o ferched cyntaf-anedig, am wn i. Gan ei fod o i fwrdd yn gweithio yn y Gwanas gymaint, mi fyddwn yn ei ddilyn fel ci bach bob tro y byddai adre. Dwi'n cofio, pan o'n i tua tair a hanner, ei wyllo'n gosod ffenest newydd ac yn mynd ati o ddifri i neud joban daclus o osod y pwti. Pan aeth yn ei ôl am y Gwanas yn y Cortina brown, mi benderfynais y gallwn i roi chydig mwy o steil ar bethe.

Mi fues i'n gwrthio mysedd i bob darn o bwti y gallwn ei gyrraedd – i neud patrwm del fel y byddai Mam yn ei neud ar ymyl tarten riwbob. Ges i goblyn o row ganddo fo wedyn. Do'n i ddim yn cofio be wnes i yn sgil y row, ond yn ôl Mam, mi wnes i lyncu mul a mynd i fy llofft i grio.

"Ty'd lawr nŵan, Bethan fach," galwodd ymhen ychydig.

"Dwi'm wedi gorffen crio eto!" gwaeddais yn ôl. Erbyn iddi fynd i chwilio amdana i, ro'n i wedi sgwennu dros wallau eu llofft nhw efo lipstick.

"Fyde 'na'm posib ennill y dydd efo ti," meddai Mam. Nago'n, do'n i ddim yn angel o bell ffordd. Yn deirblwydd a thri mis, mi dorrais fy ngwallt cyrls melyn i fwrdd; dwi'n gwybod y dyddiad yn union am fod Mam wedi cadw'r cyrls mewn amlen ac maen nhw'n dal gen i. A nagoes, does gen i'm clem be ddaeth drosta i i'w torri. Ond roedd llawer iawn gwaeth i ddod...

'Hogan Dad' o'n i, yn bendant, fel y rhan fwy o ferched cyntaf-anedig, am wn i. Gan ei fod o i fwrdd yn gweithio yn y Gwanas gymaint, mi fyddwn yn ei ddilyn fel ci bach bob tro y byddai adre. Dwi'n cofio, pan o'n i tua tair a hanner, ei wyllo'n gosod ffenest newydd ac yn mynd ati o ddifri i neud joban daclus o osod y pwti. Pan aeth yn ei ôl am y Gwanas yn y Cortina brown, mi benderfynais y gallwn i roi chydig mwy o steil ar bethe.

'Hanas Gwanas'
Cyfres y Cewri 36
Gwasg Gwynedd



NARATIF






Er mwyn ysgrifennu naratif gallech ddefnyddio:

- Y person cyntaf - gwelais . . . , teimlais . . . , es . . .
- Y trydydd person - gwelodd . . . , teimlodd . . . , aeth . . .
- Trefn gronolegol wrth adrodd digwyddiadau
- Deialog rhwng cymeriadau
- Agoriad, canol a chlo

Defnyddiwch y cysyllteiriau:

yna, ar ôl hynny, yn y cyfamser, ar yr un pryd, cyn, y diwrnod canlynol, yn ddiweddarach, felly, nesaf, wedyn, yn y diwedd, o'r diwedd



Enghreifftiau o ffurfiau naratif y gallwch chi eu defnyddio:

1. Dyddiadur hyfforddwr unrhyw gamp
2. Rhan o'ch hunangofiant chi - blynyddoedd cynnar yr ysgol gynradd
3. Nofel graffig stori dditectif
4. Stori fer: "Rhyddid"
5. Cofiant actor enwog o Gymru
6. Adroddiad o gêm tîm pêl droed cenedlaethol Cymru

Cofiwch y rheolau iaith:

- gwrthrych berf gryo'n treiglo'n feddal - *canais gân, gwelodd fwyd, darllenais lyfr*
- defnyddio dyfynodau bob tro y bydd rhywun yn siarad - *"....."*
- rhedeg yr arddodiaid cyn rhagenwau - *arnaf i, atat ti, iddyn nhw, gennym ni, ohonoch chi*

CYSYLLTEIRIAU

NARATIF

oherwydd ...

yn sydyn ...

yn ddirybudd ...

yna ...

cyn ...

yn ddiweddarach ...

yn y cyfamser ...

wedyn ...

ar ôl hynny ...

nesaf ...

ar yr un pryd ...

y diwrnod canlynol ...

felly ...

o'r diwedd ...

yn y diwedd ...



NARATIF

Sut mae Taran yn teimlo yn y strided hwn?



Pa eiriau sydd o'r un ystyr ag 'wrth droedio', 'tywys', 'at ein tranc', 'ar amrantiad', 'llwydni' a 'gofidio'?

Pa naws a grëir gan y darluniau graffig yn y strided hwn?



Pa rannau yw'r naratif? Sut ydych chi'n gwybod?

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y berfau a ddefnyddir yn y naratif a'r rhai sydd yn y ddeialog? Rhowch enghreifftiau.

Beth mae'r naratif yn ei ychwanegu at y strided?

NARATIF

Ym mha berson
mae'r naratif
hwn wedi'i
ysgrifennu?

Ym mha amser
mae'r naratif
hwn wedi'i
ysgrifennu?

Pa fath o iaith
mae'r awdur yn ei
ddefnyddio yn y
darn?

Darren yn Deud



Amsar
egwyl ddoe
roedd'na griw
ohonan ni wedi
mynd i giwio am *bacon*
bap yn y ffreutur a fi oedd
yr ola yn y ciw. Roedd pawb
wedi talu, wedi gorffan byta ac
wedi gadal erbyn i fi gal fy mwyd... ac
mi ges i 'ngadal efo dwy o genod blwyddyn
10 a dynas y gegin. A 'dach chi'n gwbod be?
Mi 'nes i joio fy hun yn iawn efo nhw. Rŵan 'ta, i'r
rhan fwya ohonoch chi dydy hynna yn ddim byd – ond
ddim i mi ylwch. Mi ges i dynnu coes a lolian a mwydro am
wahanol betha heb banicio be oeddwn i'n mynd i ddeud. Cês
ydy Diane, dynas y gegin, hefyd. Dwi'n ei chofio hi yn yr ysgol fach
ers talwm. Anti Di oedd hi'r adag honno – dynas glên. Ma' hi'n dal i
helpu fel dynas cinio pan fydd rhywun yn sâl yn rhwla. Y gwaith yn 'i
chadw hi i fynd, medda hi...

Nath 'na un peth ddwedodd hi roi sioc i mi – ma' hi ar Facebook! A
ma' hi'n hen! Dim offens, ond 'dach chi'n dallt be dwi'n feddwl,
'dydach? Dydy hen bobl, neu bobl hŷn fel Anti Di, ddim yn ffêsbwcio
fel arfar. Fwy na hynny, ma hi'n ffrindia efo toman o bobl, a ma'
hynny'n plesio. Roedd hi 'di gwirioni. Ia wir, pwy fasa'n meddwl. Wedi
meddwl mwy, dw i'n ddallt be ma' hi'n 'i feddwl. Mae'n anodd credu
bod sgrin gyfrifiadur neu ffôn yn gallu gneud i rywun deimlo gymaint
yn well. Ond mae o'n wir.

A oes
cysyllteiriau yn
y darn hwn?

Beth am geisio
ysgrifennu'r
brawddegau hyn
mewn iaith
ffurfiol?

A allwch chi
ganfod idiom
yn y darn? Beth
yw ystyr yr
idiom?

NARATIF

Pa berson sy'n adrodd yr hanes hwn? Sut ydych chi'n gwybod hyn?

Sawl digwyddiad mae Bethan yn sôn amdanynt yma? Ydyn nhw yn eu trefn gronolegol?

Pa eiriau Saesneg wedi'u Cymreigio sy'n cael eu defnyddio yma? Ydy hyn yn dderbyniol?

Beth yw ystyr "llyncu mul"? Pa nodwedd arddull yw hon?

Pa fath o iaith mae Bethan yn ei defnyddio? Pam ydych chi'n dweud hyn?

'Hogan Dad' o'n i, yn bendant, fel y rhan fwya o ferched cyntaf-anedig, am wn i. Gan ei fod o i ffwrdd yn gweithio yn y Gwanas gymaint, mi fyddwn yn ei ddilyn fel ci bach bob tro y byddai adre. Dwi'n cofio, pan o'n i tua tair a hanner, ei wylion gosod ffenest newydd ac yn mynd ati o ddifri i neud joban daclus o osod y pwrti. Pan aeth yn ei ôl am y Gwanas yn y Cortina brown, mi benderfynais y gallwn i roi chydig mwy o steil ar bethe. Mi fues i'n gwrthio mysedd i bob darn o bwrti y gallwn ei gyrraedd – i neud patrwm del fel y byddai Mam yn ei neud ar ymyl tarten riwbob. Ges i goblyn o row ganddo fo wedyn. Do'n i ddim yn cofio be wnes i yn sgil y row, ond yn ôl Mam, mi wnes i lyncu mul a mynd i fy llofft i grio.

"Ty'd lawr rŵan, Bethan fach," galwodd ymhen ychydig. "Dwi'm wedi gorffen crïo eto!" gwaeddais yn ôl. Erbyn iddi fynd i chwilio amdana i, ro'n i wedi sgwennu dros waliau eu llofft nhw efo lipstick. "Fydde 'na'm posib ennill y dydd efo ti," meddai Mam. Nago'n, do'n i ddim yn angel o bell ffordd. Yn deirblwydd a thri mis, mi dorrais fy ngwallt cyrls melyn i ffwrdd; dwi'n gwybod y dyddiad yn union am fod Mam wedi cadw'r cyrls mewn amlen ac maen nhw'n dal gen i. A nagoes, does gen i'm clem be ddaeth drosta i i'w torri. Ond roedd llawer iawn gwaeth i ddod...



Hanas Gwanas – Hunangofiant Bethan Gwanas – Gwasg Gwynedd



NARATIF

Nodwch beth wyddoch chi am Mathew yn eu trefn gronolegol.

Beth yw'r geiriau croes i "haerllug" a "main"?



Y bachgen rownd bapur oedd Matthew, wedi bod yn gweithio i Mr Hughes ers rhyw chwe mis bellach. Roedd wedi dod i mewn i'r siop un bore Llun, a gofyn yn blwmp ac yn blaen i Mr Hughes a oedd ganddo swydd iddo. Fel yr oedd hi'n digwydd, roedd y bachgen rownd bapur a oedd yn gweithio iddo ar y pryd wedi bod yn hwyr bob bore ers wythnos a mwy, ac felly fe gafodd Matthew'r swydd yn y fan a'r lle. A'r cwbl a gafodd y llall oedd y sac!

"Bore da, Matthew," meddai Mr Hughes pan gerddodd drwy'r drws y bore hwnnw. Doedd Matthew ddim yn un a oedd yn defnyddio llawer o eiriau, felly fe roddodd wên yn lle. Gwenodd Mr Hughes hefyd, hanner y wên i ateb Matthew, a'r hanner arall yn chwerthiniaid bach iddo fo'i hun mai'r un drefn oedd hi bob bore bellach. Y 'bore da, Matthew' gan Mr Hughes yn cael ei ateb efo dim byd ond gwên gan Matthew. Byddai rhai pobl yn meddwl bod Matthew ychydig yn haerllug ddim yn ateb, ond roedd Mr Hughes wedi dod i'w nabod yn ddigon da i wybod mai un fel yna oedd Matthew, a dyna ni. Bachgen y geiriau prin.

Casglodd Matthew ei fag llawn papurau, ac allan ag ef i wynt main Tachwedd. Roedd yn gwybod ei ffordd drwy'r dre yn iawn erbyn hyn. Heibio i'r clwb a'r ysbyty, y ganolfan siopa a'r eglwys. Cofiai pa dai oedd yn cael pa bapur, a chofiai fynd â'r bag gwag yn ôl i Mr Hughes ar ei ffordd adref, yn barod i'w lenwi erbyn y bore canlynol. Dwy awr a hanner o daith o amgylch y dref. Dwy awr a hanner bob bore mewn gwynt a glaw, haul a niwl, mell t a tharanau. Wrth i Matthew gerdded allan o'r siop, gofynnodd Mr Hughes iddo mewn tri gair syml, 'Mam yn iawn?' A'r ateb a gafodd oedd... gwên. 'Abigail ... yma ... Sam ... yma ... Sara ... yma ... Hannah ... yma Matthew ...'

Tawelwch.

Ni chododd Mr Roberts ei ben, dim ond symud ymlaen i alw enwau gweddill y dosbarth. Roedd Matthew yn absennol. Roedd Matthew yn absennol bron bob dydd erbyn hyn.

A welwch chi enghraifft o restru yn y darn? Beth yw pwrpas hynny? Cofiwch fod mwy nag un enghraifft.

Beth yw ystyr "bachgen y geiriau prin"?

Mae enghreifftiau o frawddegau byrion yn y darn. Ydyn nhw'n effeithiol? Pam?


Rhyddid – Tom Lewis – CAA Aberystwyth



NARATIF

Defnyddir iaith lafar naturiol yn y rhan hon. Allwch chi ganfod enghreifftiau?

Ydy hi'n dderbyniol defnyddio gair o'r Saesneg – ffantastig yma? Pam ydych chi'n credu hynny?



Un fRAINT fawr o fod yn chwarae pêl droed ar y lefel uchaf yw bod rhywun yn ca'l crwydro a pherfformio ar lwyfannau pêl droed mwya'r byd. Rhai o'r caeau pêl droed a wnaeth argraff fawr arna i fel pêl droediwr yw Mestalla, cae Valencia; y Bernabéu, stadiwm Real Madrid: a'r hen Wembley. Ond 'dyn nhw ddim yn dod ar ben y rhestr o'n hoff gaeau pêl droed chwaith. Ar y brig ma' Celtic Park, o'dd yn gartref i fi a 60,000 o gefnogwyr ffyddlon am bum mlynedd. Ro'dd awyrgylch ffantastig yno bob amser ac ro'n i wastad yn ca'l y teimlad y gallen ni ennill yn erbyn unrhyw dîm pan o'n i'n chwarae yn Celtic Park. Ma'r adnoddau yno wedi gwella llawer dros y blynnyddoedd diwetha. O dan Martin o'Neill, am y tro cynta ers 30 mlynedd, ro'dd Celtic yn dal yng nghystadlaethau Ewrop ar ôl tymor y Nadolig. Yn sgil hynny fe lwyddodd y clwb i adeiladu eisteddle newydd, i ga'l gwell cyfleusterau newid a sicrhau cae ymarfer newydd. Ac fe gawson nhw wared ar 'y jynghl', sef y rhan o'r cae lle bydde'r ymwelwyr yn sefyll.

Mae John Hartson yn defnyddio amser y gorffennol a'r presennol yma? Allwch chi ganfod enghreifftiau o'r ddau amser?

Beth yw ystyr 'Ar y brig'?


Sut gefnogwyr yw cefnogwyr Celtic yn ôl Hartson?


Lle welwch chi enghreifftiau o restru yn y darn hwn? Mae dwy enghraifft yma.

Stori Sydyn – Hartson – Y Lolfa



Ysgrifennu Naratif





Y GÊM

AGORIAD Y GÊM - BETH FU
PRIF DDIGWYDDIADAU'R
HANNER CYNTAF?

ADRODDIAD AMSER EGWYL -
BETH SYDD WEDI DIGWYDD A
BETH ALL DDIGWYDD YN YR AIL
HANNER

YR AIL HANNER - BETH FU'R
DATBLYGIADAU A CHLO'R GÊM?

Cynllunio Stori - Cam wrth gam

AGORIAD

1.

Ble mae'r stori hon yn dechrau?
Cofiwch ei bod hi'n bosib
dechrau YNG NGHANOL y
digwyddiadau.

2.

CYMERIADAU

Pwy yw'r
cymeriadau a
sut fyddwn ni'n
eu hadnabod?
Drwy eu golwg
neu eu deialog?

3.

DIGWYDDIADAU

Dewisiwch eich
digwyddiadau'n
ofalus.
Nid oes eisiau
GORMOD o
ddigwyddiadau
rhag drysu'r
darllenydd!

DATBLYGLIAD

4.

Cynlluniwch GAMAU eich stori'n ofalus er mwyn arwain y darlennydd o gam i gam.

5.

ARDDULL

*Ble mae'r
disgrifiadau?
Ydych chi
wedi cofio
defnyddio
amrywiol
nodweddion
arddull?*

CLO

b.

*Cofiwch mai'r clo yw un o rannau pwysicaf eich stori. Efallai mai dyma'r rhan y bydd
y darlennydd yn ei gofio fwyaf. Gofalwch nad ydych yn brysio'r diweddglô!*